**Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru NWR 01-01(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 26 Ionawr 2001 |
| **Amser:** | 10.00am hyd 12.35 pm |
| **Lleoliad:** | Coleg Glannau Dyfrdwy, Cei Connah |

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Ann Jones, Cadeirydd | Dyffryn Clwyd |
| Alison Halford | Delyn |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Rod Richards | Gogledd Cymru |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* | |
| Jane E Williams | Uwch Swyddog Cymuned ac Ieuenctid |
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam* | |
| Jim Humphreys | Prif Swyddog Ieuenctid |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Rhagarweiniad ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod a diolchodd i Goleg Glannau Dyfrdwy am ei letygarwch. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dafydd Elis Thomas, Ieuan Wyn Jones, Gareth Jones, Christine Humphreys a John Marek.

## Eitem 2: Adrodd yn ôl o’r cyfarfod blaenorol

2.1 Yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr cytunodd y Pwyllgor y dylid anfon llythyr at Gwmni Trenau Virgin yngln â'r gwasanaeth rhwng Llundain a Chaergybi.

2.2 Mae ateb, a dderbyniwyd y bore hwnnw, ynghlwm yn atodiad 1. Croesawyd y ffaith bod y gwasanaeth i gael ei adfer, a hynny o 29 Ionawr.

**Eitem 3: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru**

3.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Jane Williams a Jim Humphreys i'r cyfarfod. Canmolodd Jane Williams y Cynulliad am y cynlluniau yr oedd wedi'u cyflwyno ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru ers ei sefydlu. Aeth ati wedyn i ddisgrifio natur y gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru ar hyn o bryd. Dywedodd Jim Humphreys mai ymdrin â hawliau pobl ifanc a wnâi *Ymestyn Hawliau* . Croesawai'r model a fabwysiadwyd, a oedd wedi'i strwythuro o amgylch hawl pob person ifanc i ystod o wasanaethau.

3.2 Eglurodd Jane Williams y dull gwahanol a oedd yn cael ei fabwysiadu yn Lloegr lle'r awgrymir y dylai pob person ifanc allu cyrchu at gynghorwr personol. Yr oedd prosiectau peilot yn cael eu sefydlu ond eisoes yr oedd yna broblemau o ran recriwtio digon o gynghorwyr. Teimlai fod y model gwasanaethau ieuenctid a oedd yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru yn well er ei bod yn bwysig ei fod yn cael ei gyllido'n iawn. Yr oedd peth gwaith rhagorol yn cael ei wneud ac yr oedd angen ehangu'r arferion da hyn. Yr oedd angen hefyd i awdurdodau lleol weithio'n agosach gyda'i gilydd. Yr oedd yn bwysig bod pobl ifanc a'r rheini sy'n gweithio gyda nhw yn gallu manteisio ar wybodaeth o ansawdd uchel ac yr oedd *Ymestyn Hawliau* wedi ail-lansio Llais Ifanc/Young Voice. Ychwanegodd Jim Humphreys y byddai pob disgybl sy'n ymadael â'r ysgol yn derbyn canllawiau rhad ac am ddim a mynediad at linell gymorth ffôn a'r safle ar-lein erbyn mis Medi.

3.3 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan y Pwyllgor. Codwyd y pwyntiau canlynol.

3.4 Croesawyd *Ymestyn Hawliau* ond ni fyddai'n hawdd ei roi ar waith. O ystyried y gwahaniaeth yn y gwasanaeth a gyflenwir rhwng ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig, sut y gellid cyflenwi gwasanaeth o safon ledled Cymru?

3.5 Codai *Ymestyn Hawliau* lawer o gwestiynau: beth yw'r priod flaenoriaethau strategol a sut y gellid sicrhau hawliau cydradd i ardaloedd gwledig a threfol?

- Dywedodd Jane Williams y byddai pobl ifanc o Ogledd Cymru yn rhoi cyflwyniadau byr i'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Teimlai'r rhan fwyaf o bobl ifanc, pa un a ydynt yn byw mewn ardaloedd trefol neu wledig, eu bod wedi'u hynysu a'r flaenoriaeth oedd gwella cysylltiadau a thrafnidiaeth.

3.6 Pa gynlluniau sydd yna i ddatblygu dolenni cyswllt ar draws Ewrop ar gyfer pobl ifanc o Ogledd Cymru?

- Dywedodd Jane Williams fod yna rai cyfleoedd cyfnewid ond mai darniog ydynt ac y dylid eu datblygu ymhellach. Nododd y Pwyllgor y gwaith da a oedd yn cael ei wneud yn y maes hwn gan Bwyllgor Cyfnewid Ieuenctid Cymru.

3.7 Yr oedd *Ymestyn Hawliau* yn ddogfen strategol bwysig a effeithiai ar bob person ifanc yng Nghymru. Yr oedd angen felly i'r Cynulliad glywed barn pobl ifanc eu hunain fel bod y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt yn cael eu cyflenwi. Er mwyn llwyddo yr oedd yn rhaid i ystod eang o fudiadau weithio mewn partneriaeth.

3.8 Gwnâi mudiadau gwirfoddol lawer iawn o waith ieuenctid ond pa ran oedd yna iddynt hwy yn y weledigaeth a geir yn *Ymestyn Hawliau* ? A fyddai *Ymestyn Hawliau* yn arwain at fwy o gyllid i wasanaethau ieuenctid?

- Dywedodd Jane Williams mai'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyd-drefnu gwasanaethau. Yr oedd angen adeiladu ar yr arferion da sy'n bodoli'n barod drwy rannu gwybodaeth. Ychwanegodd Jim Humphreys na allai awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau ieuenctid ar eu pen eu hunain a'u bod yn dibynnu ar bartneriaethau gyda'r sector gwirfoddol.

3.9 Ni ddylid diystyru rôl cynghorwyr personol oherwydd gallent gynnig gwasanaeth defnyddiol i bobl ifanc nad oes ganddynt rwydweithiau cynnal neu nad ydynt yn gwybod i ble i fynd i gael cyngor.

3.10 Yr oedd yn anodd recriwtio arweinwyr ieuenctid felly yr oedd angen talu mwy iddynt a darparu gwell hyfforddiant. Yr oedd cyflwyno system wirio ar gyfer staff a gyflogir gyda phobl ifanc yn golygu costau i fudiadau gwirfoddol ac yr oedd hynny'n peri pryder yn gyffredinol;

- Cytunai Jim Humphreys fod recriwtio yn broblem ond yr oedd cyllid wedi'i ddarparu i adolygu'r hyfforddiant gwasanaeth ieuenctid sy'n cael ei gynnig. Yr oedd y grantiau i gyrff gwirfoddol yn cael eu cynyddu. Nododd y Pwyllgor mai cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref oedd cost y drefn wirio. Yr oedd y mater wedi'i godi gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a fyddai'n dal i bwyso ar y Swyddfa Gartref yngln ag ef.

3.11 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan y cyhoedd wedyn. Codwyd y pwyntiau canlynol.

3.12 Dywedodd Barry Latham, Prif Weithredwr Cymdeithas Cartrefi Preswyl a Nyrsio Gogledd Cymru, fod *Ymestyn Hawliau* yn codi cwestiynau'n ymwneud â dysgu gydol oes a hyfforddiant. Yr oedd angen i'r hyfforddiant sydd ar gael gyfateb yn well i'r sgiliau y mae eu hangen ar gyflogwyr. Cafodd ef anhawster i sicrhau cynrychiolaeth o'r sector preifat ar Gonsortiwm Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant ac yr oedd yn pryderu nad oedd llais cyflogwyr yn cael ei glywed;

- nododd y Pwyllgor fod yn rhaid i Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant ystyried yr

- ystod buddiannau drwyddi draw, gan gynnwys llais busnes, ac y byddai’r Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes yn sicrhau bod hynny’n digwydd.

3.13 Dywedodd Joyce M'Caw, Prif Weithredwr Gyrfâu a Mwy, ei bod yn aelod o’r grp ymgynghorol ar *Ymestyn Hawliau* . Teimlai mai dogfen am bartneriaethau ydoedd ac mai’r her i awdurdodau lleol oedd cynnwys pob mudiad sy’n gweithio gyda phobl ifanc. Pwysleisiodd bwysigrwydd Cwmnïau Gyrfaoedd mewn partneriaethau o’r fath.

3.14 Dywedodd Dafydd Rhys o Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru fod mewnbwn cyflogwyr yn hanfodol bwysig. Yr oedd angen strwythur cymwysterau cenedlaethol, a adlewyrchai anghenion economi Cymru yn hytrach na blaenoriaethau’r DU. Yr oedd darparu opsiynau addysg bellach i’r rheini sy’n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn fater cysylltiol.

3.15 Dywedodd Enid Williams, Swyddog Ieuenctid dros Feirionydd a Dwyfor ei bod yn anodd iawn denu, a chadw, gweithwyr ieuenctid mewn ardaloedd gwledig. Yr oedd angen gwell pecyn tâl ac adnoddau. Dywedodd ei bod yn bwysig i sylwadau pobl ifanc ar *Plant a Phobl Ifanc – Fframwaith ar gyfer Partneriaeth* gael eu cymryd o ddifrif. Yr oedd yn siomedig nad oedd Aelodau’r Cynulliad wedi dod i’r cyfarfod diweddar yngln â Llais Ifanc/Young Voice;

- dywedodd nifer o Aelodau iddynt fod yn awyddus i fynd i’r cyfarfod. Fodd bynnag, fe’i trefnwyd yng Nghaerdydd ar ddydd Gwener. Nid oedd yn ddiwrnod da gan mai dyma un o’r adegau prin pryd y gall Aelodau ymgymryd â gwaith yn eu hetholaethau.

3.16 Dywedodd Geraint Roberts, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, mai nid opsiwn rhad yw mudiadau gwirfoddol a bod angen cyllid ar y sector i wneud ei waith.

3.17 Mynegwyd pryder gan David Saunders, Swyddog Ieuenctid gyda Chyngor Sir Ddinbych, yngln â'r gwahaniaeth mewn lefelau cyllido rhwng Cymru a Lloegr.

3.18 Dywedodd Carl Ollin, Cymdeithas y Byddar ym Mhrydain, wrth y Pwyllgor nad yw’r gyfundrefn addysg yn hybu pobl ifanc fyddar. Aeth ef i brifysgol ac yr oedd wedi dymuno mynd yn weithiwr ieuenctid ond oherwydd yr anawsterau ymarferol a wynebai fel person byddar ni fu’n bosibl iddo gwblhau’r cwrs. Yr oedd yn anodd yn aml i bobl ifanc fyddar dderbyn gwaith gan y byddent ar eu colled yn ariannol ar ôl colli budd-daliadau.

3.19 Dywedodd Eva Fielding-Jackson, Cymdeithas y Byddar ym Mhrydain, fod arian loteri wedi’i sicrhau i sefydlu prosiect ar gyfer pobl ifanc fyddar a bod hynny wedi gwella’r ddarpariaeth. Fodd bynnag, yr oedd angen gwell mynediad at wasanaethau ieuenctid i bobl ifanc fyddar, yn enwedig yng Ngogledd Cymru.

- nododd y Pwyllgor fod yna grp trawsbleidiol gweithgar yn y Cynulliad yn ymdrin ag anawsterau clywed. Yr oedd y grp yn ymwybodol o’r anawsterau yr oedd pobl ifanc fyddar yn eu hwynebu

ac yr oedd yn ymchwilio i lawer o faterion.

3.20 Dywedodd Alex Litherland, Community Autos Rhyl, mai cyllid yw diwedd y gân i fudiadau gwirfoddol a bod yn rhaid iddynt wrth weinyddiaeth dda felly. Yn aml, câi’r meini prawf er denu cyllid eu newid, a gwnâi hynny hi yn anodd cynllunio. Yn aml byddai cyrff gwirfoddol na allent sicrhau cyllid yn mynd â'u pen iddynt.

3.21 Dywedodd David St George, Celtic Dimensions, ei bod yn bwysig gallu manteisio ar dechnoleg gwybodaeth (TG). Yr oedd cost TG yn arwain at rwyg gynyddol mewn cymdeithas. Dylai’r Cynulliad roi blaenoriaeth i wella mynediad at TG i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig.

3.22 Croesawodd y Cadeirydd dri grp ieuenctid wedyn o Sir y Fflint, Conwy a Wrecsam i’r cyfarfod. Gwnaeth pob grp gyflwyniad byr ar y materion sy’n effeithio ar bobl ifanc. Mae testun y cyflwyniadau i’w weld yn atodiadau 2, 3 a 4.

3.23 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau pellach gan y cyhoedd wedyn. Codwyd y pwyntiau canlynol.

3.24 Llongyfarchodd aelod o’r cyhoedd y grwpiau ieuenctid ar ansawdd eu cyflwyniadau. Awgrymodd fod eu cyfraniad yn ategu’r ddadl o blaid gostwng oed pleidleisio.

3.25 Canmolodd Eifion Williams o Uned Allgáu Cymdeithasol Sir Ddinbych hefyd safon y cyflwyniadau. Ychwanegodd y dylai *Ymestyn Hawliau* fod yn fater o gynnig gwasanaethau i bob person ifanc gan roi blaenoriaeth i’r rheini sydd â'r angen mwyaf.

3.26 Codwyd mater grantiau myfyrwyr gan Marie Prosser, myfyriwr yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy. Dywedodd fod myfyrwyr yn ei chael hi’n anodd cyrchu at wasanaethau a’u bod yn gorfod gweithio i dalu am astudio;

- nododd y Pwyllgor fod caledi ymysg myfyrwyr yn peri pryder mawr i’r Cynulliad a bod tasglu wedi’i sefydlu.

3.27 Dywedodd myfyriwr yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy fod angen mwy o gyllid i addysgu pobl ifanc am ryw a chyffuriau. Teimlai fod yn rhaid rhoi ysgytwad i bobl ifanc drwy ddangos effeithiau defnyddio cyffuriau iddynt.

3.28 Dywedodd dynes o Ynys Môn fod angen datblygu polisïau i hyrwyddo’r iaith Gymraeg;

- nododd y Pwyllgor fod y Cynulliad wedi ymrwymo i weithio’n ddwyieithog. Dibynnau dyfodol hirdymor yr iaith ar y gyfundrefn addysg.

3.29 Dywedodd Tomos Morgan, disgybl yn Ysgol Gyfun Llangefni, ei fod yn cynrychioli barn pobl

ifanc y dref ar Gyngor Tref Llangefni. Yr oedd yn bwysig iawn fod barn pobl ifanc yn cael ei chyfleu. Holodd a oedd gan y Cynulliad unrhyw gynlluniau i roi mwy o rym i bobl ifanc

3.30 Gofynnodd Ffion Miles, Cyngor Cymru i'r Deillion, pam nad oedd yr agenda a'r papurau ar gyfer y cyfarfod ar gael mewn braille. Gobeithiai y byddent ar gael i'r dyfodol mewn ffurf hygyrch fel y gallai pobl ifanc sydd â nam ar eu golwg gyrchu at waith y Cynulliad. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ceisio rhoi sylw i hyn mewn cyfarfodydd i'r dyfodol.

3.31 Galwodd Janet Allen, myfyriwr yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy, ar y Cynulliad i annog mamau ifanc yn ôl i addysg ac allan o fagl tlodi.

3.32 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau pellach gan y Pwyllgor. Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol;

- yr oedd trafnidiaeth wedi'i godi fel mater o bwys i bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol. Awgrymwyd y gellid gwella'r gwasanaethau ieuenctid mewn ardaloedd gwledig drwy ddarparu trafnidiaeth i gyfleusterau na fyddid yn gwneud defnydd digonol ohonynt fel arall;
- canmolwyd safon y cyflwyniadau ond nodwyd mai dim ond merched fu'n rhan ohonynt;
- mynegwyd cefnogaeth i'r awgrym y dylid gostwng oed pleidleisio. Yr oedd hefyd yn bwysig fod llais pobl ifanc yn cael ei glywed a chroesawyd yr esiampl a roddwyd gan Tomos Morgan o Langefni;
- dylid mynd ar drywydd y cynnig a wnaethpwyd gan y grp ieuenctid o Sir y Fflint, y dylai pobl ifanc gael eu dysgu i ymdrin ag arian, yn y Cynulliad;
- byddai'r angen am well mynediad at wasanaethau i bobl ifanc ag anableddau hefyd yn cael ei gario'n ôl i'r Cynulliad;
- mynegwyd syndod yngln â'r diffyg adnoddau hamdden yn yr ardal y tynnwyd sylw ato yn y cyflwyniad gan Sir y Fflint. Yr oedd angen edrych ar y ddarpariaeth a chynnig dewisiadau amgen;
- yr oedd beichiogi ymysg merched yn eu harddegau yn peri pryder mawr. Prydain sydd â'r gyfradd uchaf yn Ewrop. Yr ateb oedd peidio â barnu ar seiliau moesol ond darparu ystod o wasanaethau gan gynnwys addysg, dulliau atal cenhedlu a philsen y bore wedyn.

3.33 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau, yn enwedig y rheini gan y bobl ifanc. Câi'r drafodaeth ei chrynhoi a'i bwydo i mewn i'r ymgynghoriad. (Mae copi o'r llythyr a anfonwyd gan y Cadeirydd at Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn atodiad 5).

**Eitem 4: Cofnodion cyfarfod 8 Rhagfyr**

4.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 8 Rhagfyr.

4.2 Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'r busnes ar gyfer y tri chyfarfod nesaf fel a ganlyn:

- ar 23 Mawrth byddai'r Pwyllgor yn cwrdd yng Nghanolfan Hamdden Abergele. Byddai yna

ddwy eitem i’w trafod: datblygu seilwaith TGCh Gogledd Cymru a sesiwn yn gwahodd aelodau’r cyhoedd i gyfrannu at adolygiad gweithdrefnau’r Cynulliad;

- ar 11 Mai byddai’r Pwyllgor yn cwrdd yng Nghanolfan Ucheldre yng Nghaergybi a’r prif bwnc trafod fyddai trafnidiaeth;
- ar 6 Gorffennaf byddai’r Pwyllgor yn cwrdd yn Neuadd y Dref, y Rhyl, a’r prif bwnc trafod fyddai tai.

4.3 Gofynnodd y Cadeirydd i’r Aelodau gysylltu â chlerc y pwyllgor os oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau yngln â busnes i’w drafod i’r dyfodol.

4.4 Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben, gan ddiolch i Goleg Glannau Dyfrdwy am ei letygarwch.

**Ysgrifenyddiaeth** **Chwefror 2001**

---

**Atodiad 1**

**Llythyr gan Prif Weithredwr Cwmni Trenau Virgin**

25 Ionawr 2001

Ann Jones
Cadeirydd, Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Mae eich swyddfa wedi dwyn i’m sylw eich llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr yngln â gwasanaethau Cwmni Trenau Virgin rhwng Caergybi ac Euston.

Yr wyf yn llwyr ddeall y teimladau cryf sy’n bodoli yngln â'r mater arbennig hwn. Y newyddion da yw ein bod yn adfer y gwasanaeth rhwng Gogledd Cymru a Llundain yn ei gyfanrwydd o ddydd Llun 29 Ionawr.

Yr oedd yn gas gennym orfod tynnu’r trenau drwodd yn ôl, ac yr ydym wedi dweud ar hyd yr adeg y byddem yn ailgyflwyno’r gwasanaethau ar y cyfle cyntaf, cyn gynted ag y byddai Railtrack wedi adfer y cledrau fel eu bod yn gallu ymdopi â'r galw. Yn anffodus, golygai’r llu o gyfyngiadau cyflymder ar draws y rhwydwaith fod nifer y trenau y gallwn eu rhedeg allan o Lundain wedi'i gyfyngu.

Sylweddolwn fod cwmnïau eraill wedi gallu adfer gwasanaethau rywfaint yn gyflymach, ond mae'r gwasanaethau i Ogledd Cymru yn cael eu hadfer bum wythnos yn gynharach nag oeddem wedi ofni. Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith bod Railtrack wedi llwyddo i ailagor pob un o'r pedwar trac rhwng Euston a Watford, ynghyd â chwblhau'r prosiect signalau newydd yn Willesden.

Efallai hefyd y byddai o ddiddordeb i aelodau'r pwyllgor wybod ein bod newydd benodi Fiona Shaw i ofalu am fuddiannau cwsmeriaid Virgin yng Ngogledd Cymru, a bydd yn uniongyrchol gyfrifol am ein holl weithgareddau ar hyd y lein, o drenau i orsafoedd i wybodaeth ar gyfer cwsmeriaid.

Diolch i chi am ysgrifennu a gobeithiaf fod yr wybodaeth hon o fudd i chi.

**CHRIS GREEN**
**Prif Weithredwr**

---

**Atodiad 2**

**Cyflwyniad gan Rebecca Bebington Jones a Katrina Heath o Wasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint**

**MATERION SY'N PRYDERU POBL IFANC 16+ OED YN SIR Y FFLINT**

- Trafnidiaeth
- Hamdden
- Iechyd
- Addysg
- Gyrfa
- Troseddu

Rydym am gael ein gwerthfawrogi a'n parchu fel oedolion gan oedolion.

Ni yw dyfodol y wlad – helpwch ni i gael pethau'n iawn.

**TRAFNIDIAETH**

Mae'n gostus – Disgwylir i ni dalu fel oedolion gan nad oes gennym gerdyn myfyriwr cydnabyddedig. Anaml y mae'r bysiau'n rhedeg ac maent yn aml yn hwyr neu wedi'u canslo, sy'n ein gadael ni'n agored i niwed. Dim ond i rai mannau y mae'r bysiau'n rhedeg ac mae hynny yn ei dro yn cyfyngu ar y dewisiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael i ni.

Mae hyn yn arwain at:

Ddiflastod – Ni allwn fynd lle dymunwn heb i'n rhieni fynd â ni yno.

Cyfleoedd gwaith cyfyngedig – yn rhan amser ac amser llawn. Mae'n gadael llawer o bobl ifanc yn ddi-waith gyda llawer o amser ar eu dwylo a dim i'w wneud i lenwi'r bwlch.

Dim Cyfleusterau Hamdden

Dim arian + dim trafnidiaeth = dim hamdden

**HAMDDEN**

Un sinema yn y Sir

Nid yw'n dangos y ffilmiau diweddaraf, ac mae'n anghyfleus i'r rhan fwyaf o bobl ifanc 16-18 oed y sir.

Llawr Sglefrio

Mae'n ddrud ac fe'i defnyddir gan bobl o bell sy'n gallu talu.

Dylai fod yna ostyngiadau i bobl ifanc leol.

Y Tiv

Nid yw'n rhywle y byddwn i'n ei ddefnyddio (mae ganddo enw drwg ac felly hefyd y rhai sy'n defnyddio'r lle). Unwaith eto, mae'n anghyfleus onid yw rhieni'n mynd â chi yno yn y car.

Canolfannau/Clybiau Ieuenctid

Rhaglen strwythuredig sydd wedi'i threfnu, ond mae'r ystod oedran mor eang – nid yr un yw diddordebau pobl ifanc 16-18 oed â diddordebau rhai 11 oed. Ni cheir llawer o staff ynddynt (a rhan amser yw'r gweithwyr), felly mae'n tueddu i fod yn lle i fynd iddo'n achlysurol pan ydych am deimlo'n saff neu am gael sgwrs gyda gweithiwr y mae gennych berthynas ag ef.

Dyfrdwy yn y Parc

Roedd hyn fel chwa o awyr iach ar ddydd Llun Gyl Banc Mai. Cyngerdd roc rhad ac am ddim yn yr awyr agored ym Mharc Wepre a ddenodd 3000+ o bobl o bob oed. Ein diolch i'r Gwasanaeth Ieuenctid a Chymuned am dalu'r costau. Ond mae angen cyfleoedd fel hyn arnom fwy nag unwaith y flwyddyn.

Yr hyn sydd ei angen arnom:

Caffis Ieuenctid/siopau Gwybodaeth Ieuenctid yng nghanol trefi, yn cael eu cynnal gan weithwyr ieuenctid nad ydynt yn barnu ac sy’n gallu cynnig gwybodaeth i ni er mwyn i ni wneud dewisiadau ar sail ffeithiau yn ein bywydau, tra’n cynnig lle i ymlacio mewn amgylchedd cynnes, saff, heb fygythiad. Rhaid noddi’r ddarpariaeth fel na fydd y tu hwnt i’n pocedi ni.

**IECHYD**

Fel y dywedwyd uchod, Mannau Gwybodaeth i helpu pobl ifanc gyda’r materion sy’n effeithio ar eu bywydau. Clinigau Iechyd ar gyfer pobl ifanc yn benodol ar adegau sy'n fwy realistig I bobl ifanc h.y. nid yn ystod oriau ysgol.

Mae gan bobl ifanc lawer o straen yn eu bywydau ac mae angen amgylchedd diogel arnynt i ymlacio ynddo.

Mae pobl ifanc yn cael eu stereoteipio fel rhai sy’n cymryd cyffuriau ac alcohol a hoffent chwalu’r syniadau hynny. Gallai Caffi Ieuenctid fod yn fan lle gallai cwnselwyr cyffuriau ac alcohol gwrdd â phobl ifanc yn anffurfiol, yn enwedig pobl ifanc y mae risg iddynt gamddefnyddio sylweddau neu sydd eisoes yn gwneud hynny, tra’n eu cadw o fewn eu grp cyfoedion.

**ADDYSG**

Mae pobl ifanc o dan bwysau i lwyddo yn yr ysgol oherwydd y tablau cynghrair y mae ysgolion ynddynt. Mae angen lle arnynt y tu allan i amgylchedd yr ysgol lle gallant ollwng stêm a chael gwared â'r pwysau.

Cydnabyddiaeth i bobl ifanc 16 – 18 oed sy’n dal ati i astudio. Mae pobl ifanc yn dyheu am fod yn annibynnol ond gorfodir nhw i fod yn ddibynnol ar eu teuluoedd, tra bo ffrindiau sy’n gweithio yn fwy annibynnol.

Caiff rhai pobl ifanc eu gorfodi i ddychwelyd i addysg oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith, ond mae hyn yn golygu gallu cymysg o fewn dosbarthiadau.

Mae angen mwy o gyfleoedd i ddysgu sgiliau byw a sgiliau byw’n annibynnol ar gyfer pobl ifanc is eu cyraeddiadau i’w galluogi i fod yn annibynnol.

**GYRFA**

Gwell cyfleoedd i gael profiad gwaith GO IAWN yn hytrach na chael ein defnyddio fel gwas bach neu rywun i wneud y te.

Nid yw’r isafswm cyflog yn dod i rym hyd nes yr ydych yn 18 oed ac mae hyn yn gadael pobl ifanc 16 – 18 oed yn agored i gael eu defnyddio, ac mewn rhai achosion i gael eu diswyddo yn 18 oed er mwyn cyflogi person iau, rhatach yn eu lle.

Mae angen cyfle ar bobl ifanc i gael eu gwerthfawrogi fel gweithwyr cyflog, a dylid rhoi hyfforddiant a phrentisiaethau addas iddynt ynghyd â swyddi parhaol ar ddiwedd yr hyfforddiant hwnnw.

**TROSEDDU**

Rydym wedi blino ar gael ein stereoteipio fel pobl sy’n yfed a chymryd cyffuriau ac sy'n dwyn i gynnal ein harferion drwg.

Dywed y cyfryngau fod cyfran helaeth o droseddau yn cael eu cyflawni gan bobl ifanc heddiw ac mae pawb ohonom yn cael ein collfarnu’n droseddwyr. Efallai ei bod yn wir mai pobl ifanc sy’n gyfrifol am gyfran helaeth o’r troseddau, ond fe’u cyflawnir gan leiafrif.

I raddau helaeth mae pobl ifanc yn ddinasyddion da, sydd hefyd yn teimlo o dan fygythiad ar ein strydoedd ac a fyddai’n gwerthfawrogi presenoldeb yr Heddlu. Fodd bynnag, mae angen elfen o sefydlogrwydd ym mhresenoldeb yr Heddlu er mwyn i bobl allu llunio perthynas yn y Gymuned gyda’r Heddlu.

---

**Atodiad 3**

Cyflwyniad gan Llinos Haf Edwards, Miriam Dafydd Chilton, Elizabeth Fear a Ceri Rimmer o Ganolfan Ieuenctid Llangernyw.

# Her i’r Cynulliad

# gan Bobl ifanc Sir Conwy

- Cyflwyniad a Thrafnidiaeth – Ceri Angharad Rimmer
- Cyfleusterau – Elizabeth Fear
- Rhyw ac Alcohol – Llinos Edwards
- Addysg ac Iaith – Mirain Dafydd
- Cerdd i gloi gan Gerallt Lloyd Owen – Pawb a enwir uchod

**Cyflwyniad a Thrafnidiaeth**

Nid pentref bychan yw Llangernyw yn unig, ond maen ardal eang o laswelltir a ceir llawer or boblogaeth y ty allan ir pentref. Mae mil cant trideg wyth o drigolion yn ardal Llangernyw, ac mae rhan helaeth ohonynt yn byw cryn bellter o canol y pentref. Mae hyn yn golygu nad yw trafnidiaeth gyhoeddus o fewn cyraedd ei cartrefi.

Mae hyn yn dod a ni at ein pwnc cyntaf sef trafnidiaeth. Mae Llangernyw wedi ei leoli rhwng dwy dref fasnachol, sef Llanrwst ac Abergele. Mae Llanrwst saith milltir ir de-ollewin ac Abergele pymtheg milltir i'r gogledd ddwyrain. Mae bws yn mynd drwy'r pentref pob awr a hanner, mae 'r bws yma yn mynd i Lansanan, ymlaen i Lanfair Tal Haiarn, ac yna i Abegele. Mae bws arall yn cychwyn o Lanrwst gan fynd ymlaen i Landdoged, yna i Bandy Tudur cyn cyraedd Llangeryw, mae 'n mynd ymlaen i Wytherin cyn mynd yn ol am Lanrwst. Rydym yn credu nad ydi hyn yn ddigonol, ac y dylai bod mwy o fysiau yn rhedeg drwy Llangernyw. Credwn bod angen bysiau sy 'n rhedeg yn uniongyrchol rhwng Llanrwst ac Abergele. Mae'r bws olaf o Lanrwst yn ôl i Langernyw am ..……. o'r gloch. Dylai bod bws yn hwyrach na hyn. Petai 'r hyn yr ydym wedi son amdano yn cael ei gyflawni, rydym ni 'n ffyddiog y byddai hyn yn anog pobl i ddefnyddio 'r bysiau yn llawer mwy aml. O 'i gymharu a system sydd yn Abergele, ble ceir bysiau i 'r trefi cyfagos bob deng munud, mae 'r system leol yn warthus. Mae 'n hen bryd i rhywyn o awdurdod wneud rhywbeth am y sefyllfa drafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig.

**Cyfleusterau**

Fel person ifanc dydw i ddim yn teimlo fod na ddigon o cyfleusterau i fobl ifanc fel canolfanau hamdden, sinemas, disgos a gigs hefo bandiau yn perfformio i bobl ifanc. Fe fuasen ni yn gallu trefnu chwaraeon a gigs ond does gennym ni ddim lleoliad digon da, hefyd does genym ni ddim adnoddau ac mae pres yn broblem. Mae'n rhy pell i trafeilio i ddisgo ac yn rhy gostus, e.e. mae'n 24 punt am dacsi o Betws-y-Coed, lle mae yna disgo i bobl ifanc Llangernyw. Hefyd dim ond lle i dri sydd yna mewn tacsi.

Os bysa genym ni gyfleusterau gwell fe fyddai yn stopio gymaint o bobl ifanc rhag cerdded y strydoedd a troi at ysmygu, cyffiriau, neu alcohol am rhywbeth i wneud ac i gael hwyl. Mae hynny yn wirion, pryd y gallen nhw fod yn saff yn gwneud chwaraeon a gwrando a'r fiwsic yn hytrach na fod ar y strydoedd neu mewn tafarnau.

**Rhyw**

Yn y wlad hon mae'r nifer o ferched yn eu harddegau'n beichiogi yn llawer uwch nac unrhyw wlad o fewn Ewrop. Credaf bod hyn yn rhannol i wneud a'r gwersi a gawn am ryw. Nid yw'r gwersi hyn yn dechrau o ddifrif tan y flwyddyn gyntaf o'r ysgol uwchradd, erbyn hyn mae'r pobl ifanc hyn ar ddechrau ei glasoed, ac mae'r rhan helaeth o'r pobl ifanc hyn yn poeni am beth sy'n digwydd iddynt, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol. Credaf y dylai addysg ryw gael ei drafod yn yr ysgol yn llawer cynt na hyn, efallai tua B14 yn yr ysgol gynradd pan mae'r plant yn 7 ac yn 8 oed. Buasai hyn yn rhoi mwy o gyfle i bob unigolyn baratoi at y dyfodol, a dod i ddeall sut y mae osgoi'r sefyllfa o fod yn riant yn eu harddegau.

Mae gan y wlad hon hefyd yr oedran y caiff unigolion gyfathrach rhywiol, yn gyfreithiol, uchaf yn Europ. Yr oedran yma yn 16eg tra mae gwledydd fel Sbaen yn 12eg. Credaf bod yn hefyd yn rhannol achosi'r broblem o feichriogrwydd yn yr arddegau.

Dylai rhyw fod yn bwnc y gellir ei drafod yn agored ac heb gywilydd. Hebddo ni fuasai yr yn ohonom ni'n bodoli, ac felly mae gan bobl ifanc y wlad hon yr hawl i gael gwybod am y weithred hon i'w helpu i osgoi sefyllfaoedd a all ddinistrio eu bywydau.

**Alcohol**

Credaf fod alcoholiaeth yn dod law yn llaw a rhyw, mae'n rhywbeth sydd yn effeithio pobl ifanc yn eu harddegau, gan y bydd llawer o ieuenctid Cymru yn mynd allan ar bwriad o yfed alcohol.

Yn fy marn i dylai bod mwy o wybodaeth yn cael ei ddosbarthu i'r ifanc am broblemau sydd yn dod wrth fod o dan ddylanwad alcohol, gall hefyd fod yn brofiad brawychus pan yn gwylio eich cyfeillion a hwythau wedi yfed gormod.

Er hyn credaf y dylai yr oed cyfreithiol o ddeunaw gael ei ostwng i oleiaf dwy ar bymtheg. Credaf hyn gan yr ai llawer o bobl fy oedran i allan ar bwriad o yfed o dan oed. Mae hi'n digon hawdd i unrhyw un ffugio ei oedran ar gerdyn adnabod, a gwisgo ar bwriad o edrych yn hyn. Mae llawer o'r pobl hyn yn mynd allan i herio'r ddeddf sy'n rhoi mwy o gyffro i'r antur fawr o fynd allan.

Mae hyn hefyd yn gyfle gwych i gymdeithasu a chyfarfod pobl newydd a diddorol. Mae hefyd yn gyfle i ni gyfarfod bobl ifanc sydd rhywfaint yn hyn, pobl na fyddem fel arfer yn cael cyfle i gysylltu a hwy.

Yn fy marn i mae hyn yn rhoi mwy o hyder i'r unigolyn i fynd allan i wneud mwy o ffrindiau, ac efallai rhoi yr hyder iddynt a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer eu dyfodol.

Nid yn unig pethau drwg, a gysyllter gan amlaf a phobl ifanc yn yfed, a fydd yn digwydd, bydd llawer o bethau gwerthfawr yn deillio o'r cyfarfodydd fel magu hyder.

**Addysg ac Iaith**

Mae llawer o bwysau arnom fel pobl ifanc i wneud yn dda yn ein gwaith ysgol. Er y gall hyn ein hysgogi i wneud ein gorau, mae 'n faich ofnadwy arnom i gyd, a bydd llawer o blant yn poeni yn ormodol am rai pynciau yn enwedig Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Mae rhai pynciau yn yr ysgolion yr ydym fel disgyblion yn credu na fydd o ddefnydd i ni wedi i ni adael yr ysgol, mae yna hefyd elfennau o fewn pynciau yr ydym yn credu sy 'n llai perthnasol ac felly y dylem beidio canolbwyntio arnynt e.e. Y Tuduriaid o fewn y pwnc Hanes.

Mae yna hefyd bynciau y byddai 'n fuddiol i ni wybod amdanynt. Wrth edrych eto ar hanes, yn bersonol

fe fyddwn i wrth fy modd yn derbyn mwy o wersi ar Gymru a phobl blaengar yn ein hanes. Ar y funud mae rhan fwyaf o'r hyn rywf i 'n bersonnol yn gwybod am fy ngwlad, yn dod unai o lyfr neu o'r hyn yr wyf wedi ei drafod gyda fy rhieni.

Rydw i hefyd, yn credu yn gryf y dylem cael rhywfath o wersi ar drafod pres. Byddai hyn yn rhywbeth y bydden ni i gyd yn werthfawrogi mewn blynyddoedd i ddod. Does gennym ni ddim syniad syt mae morgais yn gweithio, na llog. Mae gymaint o bobl yn mynd i ddyled y dyddiau hyn byddai 'n dda pe bai gennym ni rhywfath o syniad o syt i drafod pres yn llwyddianus.

Mae disgwyl i ni wneud tair lefel A a dwy lefel AS yn awr, yn hytrach na 'r dair lefel A blaenorol. Rwyf yn credu bod hyn yn ormod o waith, mae 'r llwyth yn ddigon trwm yn barod. Dylai bod y dewis yno i ni wneud tair lefel A os y dymunwn. Yn ein hysgol ni, hefyd, pan gyrhaeddwn y chweched dosbarth, bydd disgwyl i ni dderbyn gwersi sgiliau allweddol yn y Saesneg. Credaf nad yw hyn yn deg, dylai bod gennym yr hawl i wneud y pwnc yn y Gymraeg. Cymraeg yw 'r iaith yr ydym yn siarad gartref, a dyma 'r iaith yr ydym wedi derbyn ein haddysg ynddo, felly dylai bod gennym hawl i barhau ein haddysg yn yr iaith Gymraeg.

Mae hyn yn dod a mi at fy ail bwynt sef safle y Gymraeg yn ein Cymdeithas ni heddiw. Mae gennym ni gymuned Gymraeg gref yn Llangernyw, ond rydym wedi bod i lefydd eraill ac wedi sylwi cyn lleied o barch sydd yn cael ei ddangos i 'r iaith ac i ni am ei siarad. Does dim rhaid i ni fynd yn bell i gael ein amharchu am ein Cymreictod, mae gen i engraifft personol lle y bum i i Landudno, i Mac Donalds i gael pryd gyda ffrindiau un fin nos. Fe archebon ni yn Saesneg, o gwrteisi i 'r rhai oedd yn gweithio yno, a mynd i eistedd ar un o'r byrddau. Gerllaw roedd criw o ferched o 'r dref yn eistedd ac wedi iddynt ein clywed, fe ddechreuon nhw frefu fel defaid arnom ni. Mae pobl yn edrych at arweinyddion eu gwlad am arweiniad, pe byddai 'r Cynnulliad yn gosod parch ar yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio gyda balchder yn ei thrafodaethau, byddai 'n codi statws y Gymraeg yng Nhgymru ac yn fyd eang. Yr iaith sydd yn ein gwneud ni 'n arbennig ac yn wahanol, mae 'n rhoi ein hunaniaeth i ni. Mae dwy o fy ffrindiau i sydd wedi trafod gyda chi heddiw wedi dysgu 'r Gymraeg. Mae 'r ddwy yn dangos i ni beth sydd yn bosib i gyflawni oherwydd nid yn unig eu bod nhw wedi dysgu 'r iaith, a'i siarad hi gyda ni, mae nhw 'n dangos ei bod hi 'n bosibl i fyw fel Cymry, a meddwl fel Cymry, er mai ail iaith ydi hi iddyn nhw. Sialens i 'r Cynulliad yw bod yn deihwng o ymroddiad y Cymry ifanc yma i gyd. Chi yw ein harweinwyr ni, cymerwch eich cyfrifoldeb o ddifri.

**Etifeddiaeth**

Cawsom wlad i'w chadw,
Darn o dir yn dyst
ein bod wedi mynnu byw.

Cawsom genedl o genhedlaeth

i genhedlaeth ac anadlu
ein hanes ni ein hunain.

A chawsom iaith, er na cheisiem hi,
Oherwydd ei hias oedd yn y pridd eisioes
a'i grym aniddig ar y mynyddoedd.

Troesom ein tir yn yn simneiau tân
a phlannu coed a pheilonau cadarn
lle nad oedd llyn.
Troesom ein cenedl i genhedlu
estroniaid heb ystyr i'w hanes,
gwymon o ddynion heb ddal
tro 'r trai.
A throesom iaith yr oesau
yn iaith ein cywilydd ni.

Ystyriwch; a oes dihareb
a ddwed y gwirionedd hwn:
Gwerth cynnydd yw gwarth cenedl
a'i hedd yw ei hangau hi.

**Gan Gerallt Lloyd Owen**

---

**Atodiad 4**

**Cyflwyniad gan Jenna Smith, Kayliegh Howen, Claire Hughes, Becky Hughes, Esther Hughes, Josie Hough a Karla Jones o Fforwm Ieuenctid Wrecsam**

**MATERION SY'N EFFEITHIO AR BOBL IFANC**

- Trafnidiaeth
- Diwylliant
- Troseddau yn eu herbyn
- Cyfleoedd Hamdden
- Digartrefedd
- Cyffuriau
- Beichiogrwydd
- Pwysau o du Cyfoedion
- Bwlio

- Iselder/Materion Iechyd Meddwl
- Crefydd
- Rhyw
- Pryd a Gwedd
- Diffyg Hyder a Hunan-barch

**GWASANAETHAU A PHOBL SY’N HELPU POBL IFANC GYDA’R MATERION HYN**

- Gwasanaeth Addysg
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaeth Iechyd
- Gwasanaethau Personol
- Awdurdod yr Heddlu
- Cwnselwyr
- Rhieni, Ffrindiau a Chyfoedion

**BETH Y DYLAI’R GWASANAETHAU FOD YN EI WNEUD?**

- Ymgynghori â phobl ifanc fel bod y gwasanaethau a ddarperir yn rhoi sylw i anghenion pobl ifanc.
- Bod yn wasanaethau cyfeirio sy’n cynnig dewisiadau a chyngor proffesiynol i bobl ifanc.
- Rhoi mwy o wybodaeth berthnasol i bobl ifanc a’r gymuned ehangach.
- Darparu rhifau ffôn rhad ac am ddim i bobl ifanc fel y gallant gysylltu â'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.
- Darparu mwy o addysg sy’n berthnasol i anghenion pobl ifanc, fel y nodir yr anghenion hynny gan bobl ifanc eu hunain.
- Mwy o gyfleoedd ffurfiol i bobl ifanc megis clybiau ieuenctid.
- Mwy o Glybiau Ieuenctid gan gynnwys:
- Mwy o staff
- Gwell adeiladau
- Mwy o adnoddau a chyfarpar

---

**Annex 5**

Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd.

Image10.gif (53365 bytes)

Jane Davidson AM
Minister for Education and Life-long Learning
National Assembly for Wales

**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd**
**North Wales Regional Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

14 February 2001

**North Wales Regional Committee – Extending Entitlement: supporting young people in Wales**

At its meeting on Friday 26 January the North Wales Regional Committee considered the development of the Assembly's policy on supporting young people set out in *Extending Entitlement* . Over 140 members of the public attended to give their views and several clear messages emerged that I should like to pass on to you. I hope that these can be fed into the consultation process.

The Committee was particularly pleased to hear the views of many young people and we hope that young people will be directly involved in the development of Assembly policies on youth support services. In particular, the Committee received short presentations from three youth groups who outlined their main concerns. These included:

- the cost and availability of public transport;
- the lack of leisure facilities;
- the need for better information on health and career issues;
- the need for more opportunities to learn life skills;
- a call for more support for the Welsh language; and
- a concern that young people are stereotyped as drinkers and drug takers.

The point was also made that young people need more information on managing money and the Committee felt this deserves further consideration.

A number of other points were made during subsequent discussion including the need to:

- improve access and services for young people with disabilities;

- support young people with disabilities who want to work but are discouraged from doing so by loss of benefits;
- ensure that young people in rural and urban areas have access to the same quality and range of services;
- offer an adequate package of pay and resources to recruit and retain youth workers;
- assist voluntary bodies with the costs of vetting staff who work with children and young people. It was felt that the Assembly should do what it can to persuade the Home Office to meet these costs;
- assist students facing financial difficulties whilst studying.

The minutes of the meeting are attached for information. I am coping this letter to Jane Hutt, Cynog Dafis and Kirsty Williams.

Yours sincerely

**Ann Jones**
Chair, North Wales Regional Committee